Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penclawdd
**Park Road**
**Penclawdd**
**Abertawe**
**SA4 3FH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gymunedol i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yw Ysgol Gynradd Penclawdd. Mae gerllaw aber afon Llwchwr y tu allan i Abertawe, ac mae'n gwasanaethu ardal Penclawdd a'r cymunedau cyfagos. Mae 189 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. O'r rhain, mae 39 yn mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser.

Mae gan tua 14% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn wyn Prydeinig. Nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 18% o'r disgyblion, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan unrhyw ddisgyblion. Mae nifer fach iawn o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Penodwyd y pennaeth yn 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penclawdd yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,455 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £15,824 a'r lleiafswm yw £2,673. Mae Ysgol Gynradd Penclawdd yn safle 44 o'r 80 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da;
- erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda, gyda rhugldder a phwyslais priodol;
- mae medrau rhif llawer o ddisgyblion yn dda;
- mae llawer o ddisgyblion y dangos medrau meddwl effeithiol;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd ac agweddau da at eu dysgu;
- mae ymddygiad disgyblion yn dda yn gyffredinol o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi;
- mae cwricwlwm yr ysgol yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus;
- mae staff yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda'r disgyblion; ac
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn rhy isel o gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg;
- mae ansawdd ysgrifennur disgyblion yn amrywio gormod ar draws ystod o dasgau;
- ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae diffyg rhugldder wrth ddarllen ymhlith lleiafrif sylweddol o ddisgyblion;
- mae safonau mewn Cymraeg yn wan;
- nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion; ac
- mae presenoldeb yn rhy isel o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth ac aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr ysgol;
- mae staff yn dadansoddi data ar berfformiad disgyblion yn ofalus i nodi tueddiadau a materion perthnasol;
- mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi meysydd priodol i'w datblygu;

- mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n dda ag asiantaethau allanol i lywio ei dealltwriaeth o ba mor dda mae'n gwneud; ac
- mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle ar gyfer staff addysgu.

Fodd bynnag:

- nid oes llawer o gofnodion ffurfiol o gyfarfodydd na'r camau gweithredu a gytunwyd, sy'n ei gwneud hi'n anodd mesur ac olrhain cynnydd o ran rhoi cynlluniau gweithredu ar waith;
- ychydig o berchenogaeth yn gyffredinol sydd gan y staff ar gynllun gwella'r ysgol ac nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd ati'n systematig ac y rheolaidd i adolygu gweithredu'r cynllun;
- mae mentrau newydd wedi'u rhoi ar waith yn anghyson gan staff ar draws yr ysgol;
- nid yw'r corff llywodraethol yn herio arweinwyr a rheolwyr digon; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran bodloni'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, yn enwedig i'r disgyblion mwy abl

A2 Gwella ansawdd a chysondeb ysgrifennu'r disgyblion

A3 Gwella safonau mewn Cymraeg

A4 Gwella lefelau presenoldeb

A5 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol yng nghyfnod allwedol 2

A6 Sicrhau bod pob athro yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gyson, a bod ffocws eu marcio ar ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion am sut i wella

A7 Sefydlu prosesau mwy ffurfiol a systematig ar gyfer monitro, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau iaith, medrau llythrennedd a medrau personol sy'n briodol i'w hoed, neu uwchlaw eu hoed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi barnau yn glir ac yn darparu atebion priodol i gwestiynau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau siarad a gwrando da gan y rhan fwyaf o'r disgyblion, ac maent yn ymgysylltu o'u gwirfodd ag oedolion a'i gilydd yn ystod trafodaethau. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cyfleu ymatebion ystyriol ac estynedig yn ymwneud â barddoniaeth y maent yn ei hastudio yn y dosbarth.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn awyddus i ddarllen a gall llawer ohonynt enwi eu hoff awduron neu lyfrau. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar lefel briodol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau cymhwyso strategaethau ffonig yn dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol yn gallu darllen yn rhugl ac ychydig o ddisgyblion sy'n darllen gyda mynegiant. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda, gyda rhuglder a phwyslais priodol. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn dechrau casglu'r ystyr o destunau mwy cymhleth ac yn deall rheswm awduron dros ddewis geiriau penodol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gallu brasddarllen a sganio straeon i leoli gwybodaeth yn effeithlon.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu'u hysgrifennu yn fedrus ac yn defnyddio siarad i gynllunio'u hysgrifennu yn llwyddiannus. Nid oes dealltwriaeth dda gan leiafrif sylweddol o ddisgyblion o ba bryd i ddefnyddio atalnodau llawn a phriflythrennau, fodd bynnag. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu. Mewn gwersi Saesneg, mae'r disgyblion hŷn yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig llawn dychymyg gan ddilyn gweithgareddau paratoi manwl. Fodd bynnag, mae ansawdd ysgrifennu'r disgyblion yn amrywio gormod ar draws ystod o dasgau. Nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu i safon dda yn gyson, ac nid yw sillafu ac atalnodi llawer o ddisgyblion yn ddigon cywir.

Mae medrau rhif da gan lawer o ddisgyblion. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn amcangyfrif cynhwysedd cynwysyddion bach yn dda, gallant ddarllen o raddfa yn gywir ac maent yn deall faint o fililitrau sydd mewn litr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cofio tablau lluosi'n briodol a gallant luosi rhifau a degolion yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau yn mesur ac yn ymdrin â data yn ddigon da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae dealltwriaeth briodol o orchmynion sylfaenol yn Gymraeg gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gall y rhan fwyaf ohonynt gyfrif yn gywir ac maent yn deall amryw o enwau sylfaenol, fel lliwiau ac enwau anifeiliaid, yn dda. Fodd bynnag, mae nifer fach iawn o ddisgyblion yn deall neu yn gallu defnyddio'r brawddegau a amlinellir yng nghanllaw patrymau brawddegau'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus yn siarad Cymraeg gan ddefnyddio patrymau brawddegau syml a chyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu nac yn siarad Cymraeg yn ddigon da.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Defnyddiant ystod o gymwysiadau i wella meysydd o'u gwaith prosiect yn llwyddiannus. Nid yw eu dealltwriaeth o gronfeydd data a thaenlenni wedi'i datblygu'n ddigonol, fodd bynnag.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos medrau meddwl effeithiol, y maent yn eu defnyddio mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau datrys problemau addas.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at y targedau a osodwyd ar eu cyfer.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad yn 2013 o ran y deilliant 5 disgwyliedig yn uwch nag yn 2012 mewn iaith a llythrennedd, ond yn is mewn datblygiad mathemategol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad wedi gwella o'r 25% isaf i'r 25% uchaf mewn iaith a llythrennedd ond wedi disgyn o'r 25% uchaf i'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol. O ran y deilliant uwch, fe wnaeth perfformiad mewn iaith a llythrennedd a datblygiad mathemategol wella o'r 25% isaf i'r 50% is yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth perfformiad yn 2013 ar y lefel 4 ddisgwyliedig osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer pob pwnc. Mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi aros yn y 50% isaf yn bennaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Ac eithrio 2010 pan oedd yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ran pob un o'r dangosyddion, fe wnaeth y rhan fwyaf o'r canlyniadau osod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, fe wnaeth perfformiad yn 2013 osod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer yr holl bynciau. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau wedi amrywio rhwng y 25% uchaf o'r 25% isaf o gymharu â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

## Lles: Digonol

Mae dealltwriaeth dda gan y disgyblion o ffordd iach o fyw ac maent yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o fentrau ysgolion iach. Teimla'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi i siarad â nhw pan fydd ganddynt bryderon neu broblemau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd ac agweddau da at eu dysgu, yn enwedig wrth gymryd rhan ym mhynciau'r cwricwlwm. Mae ymddygiad disgyblion yn dda yn gyffredinol o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn frwdfrydig ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Nid yw eu rôl wedi'i datblygu'n ddigonol, fodd bynnag, ac ychydig iawn o effaith y maent yn ei chael ar benderfyniadau yn yr ysgol. Mae pwyllgor chwarae gan yr ysgol sydd wedi llywio penderfyniadau a chamau gweithredu i wella amserau chwarae ac amserau cinio yn yr awyr agored, fel dewis cyfarpar chwarae. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgwyddo cyfrifoldebau yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn rhedeg siop ffrwythau'r ysgol yn hyderus.

Mae'r disgyblion yn ymwneud yn llwyddiannus â chysylltiadau agos a'r gymuned leol, ac yn elwa ar y cysylltiadau hyn. Er enghraifft, mae ganddynt gysylltiadau effeithiol gyda chlwb 'Rocky Tuesday' a'r ganolfan gymunedol leol, ac maent yn rhedeg cwmni bwyd cydweithredol llwyddiannus sy'n helpu cefnogi busnes cymunedol.

O ganlyniad i fentrau diweddar i wella presenoldeb, mae cyfraddau presennol wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'r duedd dros y pedair blynedd diwethaf yn isel o'i chymharu â thuedd ysgolion tebyg ac mae'n gosod yr ysgol yn y 50% isaf yn bennaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae'r staff wedi datblygu cynlluniau tymor hir sy'n rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi sefydlu'r Cyfnod Sylfaen yn dda. Gwna'r athrawon ddefnydd da o'r awyr agored i hyrwyddo dysgu'r disgyblion ac i ddatblygu ystod addas o fedrau.

Mae cynllun masnachol wedi'i gyflwyno a'i weithredu'n briodol i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu ystod dda o fedrau trwy brosiectau yn seiliedig ar destunau. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tymor hir yn sicrhau ymdrin yn systematig â holl elfennau'r cwricwlwm cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2. Er enghraifft, nid yw cynlluniau'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau gwyddonol priodol cyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r staff wedi dechrau mapio'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Lle maent wedi adnabod bylchau, maent wedi dechrau ymateb yn briodol, er enghraifft wrth gynllunio ar gyfer ysgrifennu ffeithiol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae canllaw patrymau brawddegau yn darparu strwythur priodol i athrawon gynllunio dysgu'r disgyblion yn systematig. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio hwn yn ddigon da i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau darllen ac ysgrifennu. Cynigir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru trwy deithiau, clwb poblogaidd yr Urdd a phrosiectau cwricwlwm sy'n astudio artistiaid a chyfansoddwyr o Gymru, fel Kyffin Williams a Karl Jenkins.

Ceir darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r angen i ofalu am y blaned a'i gilydd. Mae pwyllgor eco'r ysgol yn rhoi arweiniad da i fentrau arbed ynni, fel arbed dŵr a lleihau gwastraff yr ysgol.

Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y disgyblion. Cymera'r ysgol ran weithgar mewn ystod dda o gystadlaethau chwaraeon ac mae'n cysylltu'n dda â chlybiau a chymdeithasau lleol.

**Addysgu: Digonol**

Mae pob un o'r staff yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol ac yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda'r disgyblion. Defnyddir ystod effeithiol o ddulliau gan lawer o athrawon sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae llawer o wersi yn cynnwys nodau dysgu clir ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon yn sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o gynorthwywyr cymorth dysgu, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o wersi, nid yw'r athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn ddigon da ac nid ydynt yn cynllunio dysgu sy'n ystyried yr ystod lawn o alluoedd disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, caiff disgyblion adborth llafar da sy'n eu helpu i ddeall eu cynnydd. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r marcio yn effeithiol ac yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Mewn dosbarthiadau eraill, fodd bynnag, mae marcio'r athrawon yn llai defnyddiol, ac mewn llawer o achosion mae'n cynnwys ticiau neu sylwadau rhy hael. Anghyson yw'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion asesu'u dysgu eu hunain a dysgu'u cyfoedion.

Mae systemau effeithiol gan yr ysgol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda gan athrawon i nodi'r disgyblion sy'n methu gwneud cynnydd priodol ac i bennu rhaglenni ymyrryd addas. Hefyd, mae'r athrawon yn defnyddio'r system hon i nodi'r disgyblion mwy abl, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael digon o effaith ar gynllunio athrawon ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion. Darparant wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion, mewn llythrennedd a rhifedd yn bennaf, ond gwerth cyfyngedig sydd i'r sylwadau ar bynciau eraill yn aml.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Ceir polisïau ac arferion priodol ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles y disgyblion. Er enghraifft, mae ymglymiad yr ysgol â'r fenter ysgolion iach a chwmni cydweithredol ffrwythau a llysiau lleol yn gwella ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta'n iach. Gwna'r ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gweithdrefnau effeithiol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da. Mae wedi canolbwyntio'n dda ar ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei hymdrechion i gynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion o hawliau cyfartal a thegwch. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn llwyddiannus o ran hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Cyfyngedig yw'r elfen o addoli mewn gwasanaethau boreol dyddiol, fodd bynnag.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o ystod o wasanaethau arbenigol i wella'r cymorth a'r arweiniad y mae'n eu darparu i bob disgybl. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol wedi darparu cymorth effeithiol i nifer o ddisgyblion unigol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cynlluniau addysg unigol sy'n ystyriol o'r plentyn yn darparu targedau clir i ddisgyblion i wella eu dysgu. Mae'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn arfarnu'r rhain yn rheolaidd, ac mae athrawon dosbarth yn eu diweddaru'n effeithiol mewn ymgynghoriad â rhieni. Mae'r trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o 'Hawliau'r Plentyn' a phwysigrwydd cyfle cyfartal a thegwch. Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol a chaiff pob disgybl fynediad cyfartal at gyfleoedd yn yr ysgol, yn cynnwys ystod dda o ddarpariaeth ar ôl ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu yn eang ac yn cynnwys arddangosfeydd diddorol sy'n dathlu dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mae addurn yr ysgol wedi dirywio mewn rhai mannau ac yn mynnu rhywfaint o waith cynnal a chadw a moderneiddio. Mae'r ysgol yn defnyddio'i hardaloedd addysgu ac yn cynnal a chadw tir yr ysgol yn dda. Mae hyn yn cyfrannu at awyrgylch dysgu cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer disgyblion Meithrin a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r adnoddau yn bodloni anghenion dysgwyr yn effeithiol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhannu gweledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn y dyfodol. Mae uwch arweinwyr a'r staff cyfan yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes llawer o gofnodion ffurfiol o gyfarfodydd na'r camau gweithredu a gytunwyd, sy'n ei gwneud hi'n anodd mesur ac olrhain cynnydd o ran rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Mae staff ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd, mae nifer o rolau arweinyddiaeth yn dal i gael eu dosbarthu ar sail dros dro ac nid ydynt yn aros yn nwylo'r deiliaid swydd priodol.

Mae blaenoriaethau strategol yr ysgol yn briodol yn gyffredinol. Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi cyflwyno llawer o fentrau newydd, perthnasol sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, mae nifer y mentrau dros y 18 mis diwethaf wedi arwain at rywfaint o orlwytho ar reolwyr a gweithredu anghyson gan staff ar draws yr ysgol.

Mae staff yn dadansoddi perfformiad disgyblion yn ofalus er mwyn nodi tueddiadau a materion perthnasol. Mae hyn wedi helpu nodi blaenoriaethau perthnasol yng nghynllun datblygu'r ysgol, er enghraifft mewn perthynas â chyflawniadau disgyblion mwy abl. Er bod ymwybyddiaeth briodol gan y staff o dargedau ar gyfer disgyblion unigol, mae eu hymwybyddiaeth o dargedau'r ysgol gyfan yn fwy cyfyngedig.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r materion sy'n effeithio ar yr ysgol, er enghraifft wrth gefnogi mentrau diweddar i wella cynllunio'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Maent yn adolygu polisïau yn ffurfiol, mae ganddynt ystod o is-bwyllgorau ac yn rheoli'u cyfarfodydd yn dda. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr bob amser yn herio arweinwyr a rheolwyr digon o ran y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr a rheolwyr yn ymgymryd ag ystod addas o brosesau hunanarfarnu, yn gysylltiedig â'r adolygiad o fentrau diweddar yn bennaf. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o gynlluniau athrawon, craffu ar lyfrau disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae arsylwadau o wersi wedi canolbwyntio hefyd ar waith cynorthwywyr addysgu, er enghraifft wrth gyflwyno gwersi mewn Ffrangeg a chelf. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n eithaf da ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac yn amlinellu meysydd perthnasol i'w datblygu. Fodd bynnag, maent mewn ystod o fformatau gwahanol ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd codi negeseuon cyffredin o'r arsylwadau. Mae cynllun gan y pennaeth sy'n amlinellu cylch blynyddol o weithgareddau hunanarfarnu, ond nid yw arweinwyr wedi rhoi hwn ar waith yn llawn eto.

At ei gilydd, mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi meysydd priodol i'w datblygu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau perthnasol ac yn dynodi'r staff sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu, y costau a'r graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â nhw, a meini prawf llwyddo addas. Fodd bynnag, ychydig o berchenogaeth yn gyffredinol sydd gan y staff ar y cynllun ac nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd ati'n systematig ac y rheolaidd i adolygu gweithredu'r cynllun.

Mae'r ysgol wedi ymgysylltu'n dda ag asiantaethau allanol i lywio ei dealltwriaeth o ba mor dda mae'n gwneud, er enghraifft trwy graffu ar lyfrau disgyblion ac adolygiad o ddarpariaeth AAA yr ysgol gan yr awdurdod lleol. Mae'r staff yn ymgymryd â gweithgareddau cydwybodol a pherthnasol i wella'r ysgol mewn ffyrdd amrywiol, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd. Fodd bynnag, nid oes llawer o gofnodion ffurfiol o gyfarfodydd rheolwyr na chynlluniau ffurfiol i roi newid ar waith yn systematig. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i fonitro gweithrediad cynlluniau yn gadarn neu i ddwyn staff i gyfrif.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod addas o bartneriaid. Mae'r rhieni yn gefnogol i'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau'r ysgol, fel y

prosiect Global Gourmet, ac yn mynd gyda disgyblion ar deithiau. Defnyddia'r ysgol sianeli cyfathrebu ar-lein yn dda i roi gwybod i rieni am weithgareddau'r ysgol ac i ddathlu llwyddiannau'r disgyblion. Mae wedi sefydlu clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol llwyddiannus i gefnogi disgyblion ac i ofalu am ddisgyblion pan fydd rhieni yn y gwaith.

Mae cysylltiadau agos gan yr ysgol ag eglwysi, cymdeithasau ac elusennau lleol. Er enghraifft, mae gweithiwr ieuenctid o gapel lleol a gweithwyr chwarae lleol yn ymweld â'r ysgol bob wythnos. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu ystod dda o gysylltiadau gyda chlybiau chwaraeon a chymdeithasau lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion ac mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn ystod dda o gystadlaethau chwaraeon yn llwyddiannus. Mae'r swyddog heddlu lleol yn cyfrannu'n rheolaidd at addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion, er enghraifft drwy gyfraniadau at ddiogelwch y rhyngrwyd, bwlio, chwarae'n ddiogel a chyffuriau ac alcohol.

Ceir cysylltiadau da â'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau effeithiol i helpu disgyblion drosglwyddo i addysg uwchradd, gan gynnwys ymweliad tridiau gan ddisgyblion Blwyddyn 6 â'r ysgol uwchradd yn nhymor yr haf. Hefyd, mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd lleol, er enghraifft i gymedroli a safoni gwaith disgyblion ac i rannu arbenigedd wrth roi rhaglen llythrennedd strwythuredig ar waith.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm ac i fodloni anghenion disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r cynorthwywyr addysgu yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda mewn rhaglenni ymyrraeth ac yn y rhan fwyaf o wersi, ond nid ydynt bob amser yn cyfrannu'n ddigon llawn mewn sesiynau llythrennedd yng nghyfnod allweddol 2. Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Mae cyswllt agos rhwng gwariant â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'i chronfeydd wrth gefn yn briodol i ariannu mentrau diweddar mewn llythrennedd a chynllunio'r cwricwlwm, yn ogystal ag i gynnal a chadw neu wella agweddau ar adeilad yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer staff addysgu, er nad yw'r rhain yn cynnwys cynorthwywyr addysgu eto. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant proffesiynol addas sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Bydd y staff sydd â medrau penodol yn modelu dulliau addysgu'n briodol gyda staff eraill mewn cyfarfodydd neu yn ystod diwrnodau hyfforddi. Mae'r staff wedi cyfranogi mewn rhwydwaith clwstwr lleol ar gyfer datblygu proffesiynol yn ymwneud â llythrennedd a datblygu medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r staff yn defnyddio adnoddau yn dda i gefnogi dysgu'r disgyblion, ond mae diffyg rhwydwaith diwifr yn cyfyngu ar ddefnyddio cyfrifiaduron llechen cludadwy gan ddisgyblion a staff ar draws yr ysgol.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013,  roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn iaith a llythrennedd a datblygiad mathemategol, ond yn is na’r cyfartaledd mewn medrau personol a chymdeithasol.  Ar y deilliant 6 uwch, roedd perfformiad islaw cyfartaledd y teulu ym mhob maes dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad yn 2013 o ran y deilliant 5 disgwyliedig yn uwch nag yn 2012 mewn iaith a llythrennedd, ond yn is mewn datblygiad mathemategol.  Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad wedi gwella o’r 25% isaf i’r 25% uchaf mewn iaith a llythrennedd ond wedi disgyn o’r 25% uchaf i’r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol.  O ran y deilliant 6 uwch, fe wnaeth perfformiad mewn iaith a llythrennedd a datblygiad mathemategol wella o’r 25% isaf i’r 50% is yn 2013.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd perfformiad o ran y deilliant disgwyliedig yn well na pherfformiad bechgyn mewn medrau personol a chymdeithasol.  Ar y lefel uwch, roedd perfformiad merched yn well na bechgyn mewn iaith a llythrennedd, ond fe wnaeth y bechgyn yn well na merched mewn datblygiad mathemategol.

Yn 2013, roedd canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel 4 ddisgwyliedig a’r lefel 5 uwch yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob maes pwnc.

Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth perfformiad yn 2013 ar y lefel 4 ddisgwyliedig osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer pob pwnc.  Mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi aros yn y 50% isaf yn bennaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf.  Ac eithrio 2010 pan oedd yr ysgol yn y 50% uwch neu’r 25% uchaf o ran pob un o’r dangosyddion, fe wnaeth y rhan fwyaf o’r canlyniadau osod yr ysgol yn y 50% is neu’r 25% isaf o’i chymharu ag ysgolion tebyg.  Ar y lefel 5 uwch na’r disgwyl, fe wnaeth perfformiad yn 2013 osod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer yr holl bynciau.  Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf o’r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, perfformiodd y merched yn well na’r bechgyn yn Saesneg.  Ar y lefel 5 uwch, fe wnaeth y bechgyn berfformio’n well na’r merched mewn mathemateg a  gwyddoniaeth.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid - ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 89 | 82<br>92%<br>98% | 7<br>8%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 89 | 69<br>78%<br>92% | 20<br>22%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 89 | 82<br>92%<br>97% | 7<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 89 | 85<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 89 | 86<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 89 | 80<br>90%<br>96% | 9<br>10%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 89 | 85<br>96%<br>99% | 4<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 89 | 81<br>91%<br>98% | 8<br>9%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 89 | 70<br>79%<br>91% | 19<br>21%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 89 | 79<br>89%<br>95% | 10<br>11%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 89 | 57<br>64%<br>77% | 32<br>36%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 89 | 76<br>85%<br>84% | 13<br>15%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 38 | 23 | 15 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 38 | 26 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 38 | 23 | 15 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 38 | 24 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 39 | 13 | 25 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 64% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 39 | 20 | 18 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 51% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 39 | 24 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 36 | 15 | 16 | 3 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 44% | 8% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 38 | 18 | 19 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 47% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 39 | 16 | 21 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 41% | 54% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 39 | 20 | 19 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 51% | 49% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 35 | 18 | 13 | 1 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 51% | 37% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 39 | 21 | 17 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 54% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 39 | 26<br>67% | 13<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 38 | 15<br>39% | 17<br>45% | 3<br>8% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 39 | 20<br>51% | 19<br>49% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 12<br>39% | 10<br>32% | 2<br>6% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 39 | 19<br>49% | 19<br>49% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 39 | 21<br>54% | 18<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Andrew Thorne | Arolygydd Cofnodol |
| Barry Norris | Arolygydd Tîm |
| Catherine Mary Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Catherine James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Liz Jackson | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.